

## PRIFYSGOL BANGOR

### PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

**Cyfarfod:** 11 Tachwedd 2015

**Preseanol:** Prof. P Spencer (Cadeirydd), Miss S Barnes, Mr H Ellis, Mr D Fordham, Ms L Fowlie, Mr A Jones, Dr L Jones, Mr W Jones, Mrs M Lake, Mrs L Meadows, Ms C Monks, Dr L Murphy, Mrs E Parry Williams, Ms E Riches, Dr H Roberts, Mr S Roberts, Mr M Stanley, Mr D Williams, Mr G W Jones (Ysgrifennydd).

**Ymddiheuriadau:** Dr J Latchford, Dr K Mundy, Prof, C Tully, Prof John Hughes.

#### 470. COFNODION

Cymerwyd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mai 2015, wedi'u darllen, eu cadarnhau a'u llofnodi.

#### 471. MATERION YN CODI

a) Cofnod 463 (c) Canllawiau i Aelodau'r Cyngor a Deoniaid Colegau:

Mae'r canllawiau wedi cael eu cyhoeddi a'u dosbarthu, ond bydd angen eu diwygio i adlewyrchu'r newidiadau'n deillio o Bolisi Iechyd a Diogelwch diwygiedig y brifysgol.

b) Cofnod 463 (d) Coleg Bangor yn Tsiena:

Mae Coleg Bangor yn Tsiena (BCC) wedi cymeradwyo'r Llawlyfr Staff i staff academiaidd a gweinyddol ar ymweliad. Bydd y llawlyfr, a ddatblygwyd i roi canllawiau cyffredinol i ymwelwyr â BCC, ar gael i staff.

c) Cofnod 464 (a(viii))Hyfforddiant Staff:

Mae SEG wedi dechrau ei adolygiad o gofnodion ar hyfforddiant staff ym maes iechyd a diogelwch. Rhagwelir y datblygir Hyfforddiant Staff fel Dangosydd Perfformiad Allweddol (KPI) i gefnogi'r Polisi Iechyd a Diogelwch diwygiedig.

d) Cofnod 464 (a(xi)) Asesiadau Risg I a D Colegau / Adrannau:

Bydd adolygiad o Asesiadau Risg I a D Colegau/Adrannau yn dechrau'n fuan.

e) Cofnod 464 (b) Adolygiad o Ddiogelwch Bysiau Mini

Mae adolygiad o drefniadau rheoli Colegau/Adrannau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Safon Bolisi Diogelwch Gyrrwr a Cherbyd yn agosáu at ei orffen. Fel rhan o'r broses hon, gobeithir symleiddio'r gofynion gweinyddol o ran yr angen i wirio trwyddedau gyrru ac awdurdodi gyrrwyr yn achos staff a myfyrwyr yn gyrru ar fusnes yn ymwneud â'r brifysgol.

f) Cofnod 464 (c(iv)) Adolygiad o Ddiogelwch Offer Trydanol:

Mae dau Goleg y nodwyd bod ganddynt wendidau o ran cydymffurfio â'r Polisi Diogelwch Trydanol wedi gwneud gwaith helaeth dros yr haf i sicrhau bod offer trydanol yn cael prawf PAT fel sydd ei angen.

g) Cofnod 465 Grŵp Tasg Gweithredu Diogelwch:

Gwelir bod y trefniadau diwygiedig ar ymateb i danau posibl yn gweithio'n dda, o ganlyniad i newidiadau yn y ffordd mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'n ymateb i achosion o weithredu larymau tân. Diolchwyd i'r holl staff diogelwch sy'n allweddol i'r drefn hon. Caiff y trefniadau eu hadolygu'n rheolaidd a gwnaed mân welliannau o ganlyniad i brofiad gweithrediadol.

h) Cofnod 469 Unrhyw fater arall:

Cafwyd sicrwydd o ran diogelwch trydanol yng Ngholeg Bangor yn Tsiena.

## **471. POLISI'AU, ARCHWILIADAU AC ADRODDIADAU**

### **471(a). Adroddiad Diwygiedig ar Achosion Salwch**

Cyflwynwyd crynodeb o'r ystadegau diwygiedig ar absenoldeb salwch tymor hir, sy'n cynnwys y pedair blynedd ddiwethaf. Nodwyd mai prif achos absenoldebau salwch tymor hir yn 2013 a 2014 oedd materion cyhyrsgerbydol a seicolegol.

Ni nodwyd unrhyw dueddiadau o bwys.

O ran absenoldeb hir dymor oherwydd materion seicolegol, roedd y staff yn dod o 24 adran wahanol yn 2014 ac 20 yn 2013. Efallai y bydd cefnogaeth ychwanegol yn fuddiol mewn dwy uned. Caiff gwaith hybu iechyd ei flaenoriaethu'n unol â hynny.

### **471 (b). Adroddiad y Cadeirydd**

Mae'r adolygiad o Bolisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol wedi dechrau, gan gymryd i ystyriaeth ddogfen ganllaw ddiwygiedig yr *UCEA / USHA Leadership and Management of Health and Safety in Higher Education Institutions*. Nodwyd bod y ddogfen UCEA/USHA ddiwygiedig yn llawer mwy cynhwysfawr o'i chymharu â'r fersiynau cynharach. Dyma'r prif newidiadau:

- i. Mae'n amlinellu cyfrifoldebau clir ar draws sefydliadau.
- ii. Rhoddir pwyslais ar welliant cyson yn deillio o gamau gweithredu a nodwyd ym Mhroffil Risg sefydliad.
- iii. Dylai sefydliadau ddatblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) mesuradwy mewn ymateb i'r Proffil Risg Sefydliadol. Nid yw'r ddogfen UCEA yn rhoi cyfarwyddyd cadarn ar KPI, neu enghreifftiau ohonynt.

O ganlyniad i'r adolygiad mae'r Polisi I a D bellach wedi ei rannu'n ddwy adran: y Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch, Polisi Llywodraethu, a dogfen gysylltiedig, Trefniadau a Dulliau Gweithredu Rheolaeth.

### **471(c). Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch**

Fe wnaeth y pwyllgor ystyried y Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch diwygiedig ac ni awgrymwyd unrhyw newidiadau o bwys. Nodwyd bod y ddogfen bolisi'n ceisio pennu'r lefel a'r safon perfformiad disgwyltiedig ac nad oedd yn ceisio sicrhau rhagoriaeth ym mhob agwedd ar iechyd a diogelwch.

Yn amodol ar fân newidiadau, bwriedir yn awr ddod â'r Datganiad Polisi gerbron Cyngor y Brifysgol iddo ei ystyried. **Gweithredu: Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch**

### **471(d). Mesur Perfformiad Iechyd a Diogelwch y Brifysgol**

Mewn ymateb i gyhoeddiad canllaw'r USHA / UCEA, mae Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn cael eu hystyried ar hyn o bryd ac fe'u cyflwynwyd i gael sylwadau arnynt. Dylid nodi y bydd rhai KPIs yn newid flwyddyn ar ôl blwyddyn, wrth i dargedau tymor byr gael eu gosod a newid.

### **471(e). Adroddiad ar ddefnyddio Cerbydau Awyr Di-beilot (UAV) (Drôns)**

Gwelodd arolwg gan HSS i bennu i ba raddau y defnyddir drôns ar draws y brifysgol bod 4 Ysgol ac 1 Adran yn eu defnyddio; a bod 3 Adran yn ystyried eu defnyddio i gefnogi eu

gweithgareddau.

Fe wnaeth trafodaethau â Phrifysgol John Moores Lerpwl, sy'n gweithredu nifer o ddrôns, amlygu'r cymhlethdodau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â defnyddio'r rhain a gwahanol ddehongliadau sydd ar gael. O ganlyniad:

- i. Mae pob Ysgol/Adran wedi cael cyfarwyddyd y gallant ddefnyddio UAV yn unig ar fusnes yn ymwneud â'r brifysgol os yw'r UAV:
  - o Wedi ei gael drwy gyflenwr 3ydd parti cymwys sydd gyda chymwysterau priodol, yswiriannau a Thrwydded CAA ar gyfer Gwaith Awyr.
  - o Y rhoddir gwybod am y 'comisiwn' i'r HSS a'i gymeradwyo ganddynt cyn i'r gwaith UAV ddechrau.

I gefnogi'r angen cynyddol i Golegau/Adrannau weithredu UAVs, bydd yr HSS yn:

- ii. Datblygu Polisi a Llawlyfr Gweithredu cysylltiedig.
- iii. Ceisio Trwydded CAA i ddefnyddio UAVs (ar ôl i hyfforddiant addas gael ei roi i Beilot UAV mewn Ysgol/Adran).
- iv. Cymeradwyo i UAVs hedfan dros eiddo'r brifysgol gan 3ydd parti a holl gomisiynau 3ydd parti, nes bydd trefniadau amgen wedi eu llunio.

#### **472. ADRODDIADAU PWYLLGORAU A PHROJECTAU MAWR**

Roedd yr holl eitemau'n ymwneud â'r Grŵp Tasg Gweithredu Diogelwch ar agenda'r cyfarfod.

#### **473. DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU MAWR**

- i. Digwyddodd un digwyddiad mawr yn 2015 gydag aelod staff yn cael Encephalitis Japaneidd pan oedd yn gweithio yn Tsiena. Nodwyd bod SEG ar hyn o bryd yn adolygu rhagofalon iechyd cyn mynd i deithio, gweithio ac astudio dramor, ac yn ystod y cyfnodau hynny.
- ii. I wella cipio data a nodi tueddiadau'n ymwneud â damweiniau/ digwyddiadau, mae ymdrech sylweddol wedi cael ei gwneud i hybu rhoi gwybod am ddamweiniau a digwyddiadau ar draws y brifysgol. Gellir gweld canlyniadau hyn yn y gymhariaeth ganlynol o ddata 2014 a 2015:

	2014	2015
Ffurflenni adrodd am ddamweiniau/digwyddiadau 1 Ion-11 Tach	146	284
Anafiadau	68	61
Tân	1	0
Cyflyrau Meddygol	12	21
Digwyddiadau Peryglus / Arfer Anniogel	33	127
Chwaraeon	32	75

#### **474. ADRODDIAD Y GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH (HSS)**

Rhodddwyd crynodeb o waith allweddol HSS. Nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

- i. Mae adolygiad o drefniadau rheoli Colegau/Adrannau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Safon Bolisi Diogelwch Gyrrwr a Cherbyd yn agosáu at ei orffen. Gobeithir y bydd hyn yn arwain at ofynion llai beichus ar Golegau / Adrannau o ran awdurdodi gyrwyr a gwirio trwyddedau gyrru.

- ii. Mae gwaith helaeth wedi'i wneud i ddiwygio dogfennau iechyd a diogelwch sefydliadol allweddol yn unol â'r canllawiau diwygiedig - *UCEA / OSHA Leadership and Management of Health and Safety in Higher Education Institutions Guidance*.
- iii. Mae cynlluniau iechyd allweddol wedi cynnwys: beicio, benthyca beics, Taith Feicio Bangor i Aber, Dyddiau Golff y Brifysgol, Teithio'r Byd, darparu gwiriadau iechyd i staff, datblygu'r System DSE ar-lein.

**475. EITEMAU GAN AELODAU'R PWYLLGOR**

Nodwyd y canlynol:

- i. Diolchwyd i'r pwyllgor am ei gefnogaeth yn cynnal yr ISOH Managing Safety Course.
- ii. Diolchodd Undeb y Myfyrwyr am y gefnogaeth a gafwyd gyda'r drôn Myfyrwyr yn Gwirfoddoli.

**476. UNRHYW FATER ARALL**

Dim.